Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Bro Aled Llansannan
# Llansannan
# Dinbych
# Conwy
# LL16 5HN

## Dyddiad yr arolygiad: Hydref 2015

## gan

## Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol yr ysgol a'i rhagolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Ⓗ Hawlfraint y Goron 2015: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 15/12/2015**

## Cyd-destun

Lleolir Ysgol Bro Aled ym mhentref Llansannan ac fe'i cynhelir gan awdurdod Conwy. Mae niferoedd yr ysgol wedi gostwng yn gyson dros y ddwy flynedd diwethaf. Ar hyn o bryd, mae 57 disgybl ar gofrestr yr ysgol, sy'n cynnwys 12 o ddisgyblion oed meithrin. Mae'r disgyblion yn cael eu haddysgu mewn 3 dosbarth cymysg.

Dros y tair blynedd diwethaf, mae oddeutu 9% o ddisgyblion yn gymwys i dderbyn cinio ysgol am ddim, sy'n sylweddol is na'r cyfartaledd ar gyfer Cymru. Daw 89% o ddisgyblion o gartrefi lle siaredir y Gymraeg. Yng nghyfnod allweddol 2, addysgir y disgyblion drwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg gyda'r nod o'u cael yn ddwyieithog erbyn iddynt drosglwyddo i'r ysgol uwchradd. Mae tua 11% o ddisgyblion ar y gofrestr anghenion dysgu ychwanegol. Mae ychydig iawn o ddisgyblion o gefndir ethnig, ynghyd ag ychydig iawn o ddisgyblion yng ngofal yr awdurdod.

Cafodd yr ysgol ei harolygu ddiwethaf ym mis Mehefin 2009. Mae llawer o newid wedi bod yn staffio'r ysgol dros y flwyddyn ddiwethaf. Mae'r pennaeth yn ei swydd ers Medi 2014. Yn ystod yr arolygiad, roedd pennaeth dros dro yn gofalu am yr ysgol ers canol mis Medi 2015.

Y gyllideb ysgol unigol fesul disgybl ar gyfer Ysgol Bro Aled 2015-2016 yw £4,574. Yr uchafswm fesul disgybl mewn ysgolion cynradd yng Nghonwy yw £6,763 a'r lleiafswm yw £2,889. Mae Ysgol Bro Aled yn y 20fed safle o'r 47 ysgol gynradd yng Nghonwy o safbwynt y gyllideb ysgol fesul disgybl.

## Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol yr ysgol** | **Digonol** |
| **Rhagolygon gwella'r ysgol** | **Anfoddhaol** |

### Perfformiad presennol

Mae perfformiad presennol yr ysgol yn ddigonol oherwydd:

- bod llawer o ddisgyblion yn gwneud cynnydd addas yn eu dysgu yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol
- bod rhan fwyaf y disgyblion ar draws yr ysgol yn canolbwyntio'n dda mewn gwersi ac yn cymryd diddordeb yn eu gwaith
- bod ymddygiad bron bob un o'r disgyblion yn dda yn y gwersi ac o gwmpas yr ysgol
- mae presenoldeb disgyblion wedi gosod yr ysgol yn 25% uchaf a'r 50% uwch mewn tair o'r pedair blynedd diwethaf o gymharu ag ysgolion tebyg

Fodd bynnag:

- nid yw ychydig o ddisgyblion mwy abl yn gwneud digon o gynnydd yn eu medrau rhifedd yng nghyfnod allweddol 2
- nid oes cyfleoedd cyson i ddisgyblion ddatblygu eu medrau yn ddigon llwyddiannus ar draws ystod o bynciau
- nid yw'r addysgu'n cynnig digon o her i ddisgyblion, yn enwedig yng nghyfnod allweddol 2
- mae gor-gyfarwyddo gan athrawon ar draws yr ysgol yn cyfyngu ar allu'r disgyblion i fod yn ddysgwyr annibynnol ac i gymryd rôl weithredol yn eu dysgu eu hunain

### Rhagolygon gwella

Mae rhagolygon gwella yr ysgol yn anfoddhaol oherwydd:

- bod arweinyddiaeth strategol yr ysgol wedi bod yn aneffeithiol dros gyfnod
- nid oes gan arweinwyr weledigaeth glir ar gyfer datblygiad strategol yr ysgol
- nid yw'r corff llywodraethol yn cyflawni ei ddyletswyddau statudol yn llawn
- nid oes gan y pennaeth a'r arweinwyr ddarlun digon clir o gryfderau'r ysgol a'r agweddau pwysig sydd angen eu gwella o ran y ddarpariaeth a'r arweinyddiaeth
- nid yw arweinwyr yn monitro cynnydd yn erbyn targedau gwella yr ysgol yn ddigon effeithiol
- nid yw'r arweinwyr yn monitro gwariant yr ysgol yn briodol
- nid yw'r arweinwyr yn rheoli perfformiad a datblygu medrau staff yn briodol

Serch hynny:

- mewn byr amser, mae arweinyddiaeth y pennaeth mewn gofal dros dro yn dechrau gosod cyfeiriad i'r ysgol
- mae gan yr ysgol nifer o bartneriaethau effeithiol sy'n cyfrannu'n briodol at y ddarpariaeth a safonau cyflawniad a lles y disgyblion

## Argymhellion

A1 Codi safonau rhifedd disgyblion, yn enwedig y disgyblion mwy abl

A2 Sicrhau bod cynlluniau cyfnod allweddol 2 yn ymateb i'r cwricwlwm cyfredol ac yn datblygu medrau'r disgyblion yn fwriadus

A3 Gwella ansawdd yr addysgu ar draws yr ysgol gan ymestyn lefel yr her i ddisgyblion mwy abl a datblygu disgyblion i fod yn ddysgwyr annibynnol

A4 Cryfhau arweinyddiaeth yr ysgol i weithredu'n fwy strategol er mwyn arfarnu prosesau'r ysgol a gwella cyflawniad disgyblion

A5 Cryfhau rôl y llywodraethwyr fel eu bod yn gweithredu'n fwy strategol wrth gynllunio ar gyfer gwelliant, gan sicrhau eu bod yn cyflawni eu dyletswyddau statudol

A6 Sicrhau bod arweinwyr yn mynd i'r afael â'r materion diogelu

A7 Cryfhau'r broses hunanarfarnu er mwyn adnabod yn glir y meysydd i'w gwella gan fonitro a gweithredu ar y canfyddiadau

### Beth sy'n digwydd nesaf?

Yn unol â Deddf Addysg 2005, mae PAEM o'r farn bod angen gwelliant sylweddol ar yr ysgol hon. Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion. Bydd Estyn yn monitro cynnydd yr ysgol tua 12 mis ar ôl cyhoeddi'r adroddiad hwn.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Digonol |
|---|---|

**Safonau: Digonol**

Mae medrau sylfaenol llawer o ddisgyblion ar fynediad i'r ysgol yn gadarn ac mae llawer yn gwneud cynnydd addas yn eu dysgu yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol. Fodd bynnag, nid yw'r disgyblion mwy abl bob amser yn cyrraedd y safonau uwch. Mae disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn gwneud cynnydd priodol o'u man cychwyn.

Mae rhan fwyaf o ddisgyblion y Cyfnod Sylfaen yn gwrando'n astud ac yn cyfathrebu'n glir yn y Gymraeg, gan ddefnyddio cystrawen gadarn a geirfa sy'n briodol i'w hoed a'u gallu. Erbyn diwedd y cyfnod, mae llawer yn trafod yn hyderus, er enghraifft wrth gymharu nodweddion eu hardal leol â Chonwy, gydag ychydig iawn o ddisgyblion mwy abl yn defnyddio geirfa ehangach. Mae rhan fwyaf y disgyblion yng nghyfnod allweddol 2 yn canolbwyntio'n dda mewn gwersi ac yn cymryd diddordeb yn eu gwaith. Mae rhan fwyaf yn cyfathrebu'n glir ac yn hyderus gan ymuno â thrafodaethau dosbarth yn frwdfrydig. Er enghraifft, mae'r disgyblion yn mynegi barn am bwysigrwydd edrych ar ôl yr amgylchedd ac yn llunio rheolau cefn gwlad yn effeithiol. Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, mae llawer o ddisgyblion yn trafod agweddau o'u gwaith ar Batagonia yn hyderus gan roi rhesymau dilys am orfod ymfudo i'r wlad.

Yn y Cyfnod Sylfaen, mae llawer o ddisgyblion yn darllen gyda chywirdeb a dealltwriaeth o'r testun. Maent yn gwneud cynnydd priodol yn eu darllen o'u man cychwyn, gydag ychydig iawn o ddisgyblion mwy abl yn trafod eu hoff gymeriadau, ond ar lefel elfennol iawn. Mae disgyblion yn defnyddio ystod o strategaethau priodol wrth ddarllen geiriau anghyfarwydd ac wrth bennu ystyr. Yng nghyfnod allweddol 2, mae llawer o ddisgyblion yn darllen ystod o ddeunyddiau yn y ddwy iaith yn briodol ac mae eu dealltwriaeth o'r testun yn dda. Erbyn diwedd y cyfnod, mae llawer o ddisgyblion yn dangos ymwybyddiaeth dda o'r gynulleidfa wrth ddarllen ar goedd. Mae llawer o ddisgyblion yn medru cywain gwybodaeth berthnasol o destun yn effeithiol. Enghraifft o hyn yw'r disgyblion yn dod o hyd i ffeithiau er mwyn ysgrifennu araith yn erbyn boddi Cwm Tryweryn.

Yn y Cyfnod Sylfaen, mae rhan fwyaf y disgyblion yn gwneud cynnydd da yn eu medrau ysgrifennu. Erbyn diwedd y cyfnod, mae rhan fwyaf ohonynt yn defnyddio'u medrau llythrennedd yn effeithiol gan ysgrifennu'n synhwyrol ac yn annibynnol. Enghraifft o hyn yw disgyblion yn ysgrifennu broliant ar lyfr 'Ryan a'i Esgidiau Glaw'. Mae llawer o ddisgyblion yn defnyddio ffurf gryno'r ferf yn gyson ac yn atalnodi eu gwaith yn briodol. Mae'r rhan fwyaf yn defnyddio ystod dda o eirfa gyfoethog, wrth ysgrifennu barddoniaeth yn seiliedig ar hanes Barti Ddu. Yng nghyfnod allweddol 2, mae llawer o ddisgyblion yn ysgrifennu'n ddeallus mewn amrywiaeth o ffurfiau yn y ddwy iaith. Mae llawer ohonynt yn cynhyrchu darnau ysgrifennu ymestynnol yn y Gymraeg gan ddefnyddio ystod o ferfau eang yn eu gwaith. Enghraifft o hyn yw dyddiadur am un o gymeriadau o lyfr 'Ta Ta Tryweryn'. Yn gyffredinol, mae llawer o ddisgyblion yn dangos gafael eithaf sicr ar ffurf wrth ysgrifennu yn y Saesneg, gan

ddatblygu eu syniadau'n ddychmygus a chan sillafu'n weddol gywir. Fodd bynnag, nid yw'r disgyblion yn ysgrifennu i'r un safon ar draws ystod o bynciau yn y ddwy iaith. Mae gor-ddefnydd o daflenni gwaith yn cyfyngu ar allu'r disgyblion i ddatblygu eu medrau llythrennedd yn llwyddiannus ar draws y cwricwlwm.

Yn y Cyfnod Sylfaen, mae rhan fwyaf y disgyblion yn defnyddio a chymhwyso eu medrau rhifedd yn hyderus mewn amrywiaeth o sefyllfaoedd. Gall lawer ddisgrifio nodweddion siapiau 2D a 3D yn gywir. Erbyn diwedd y cyfnod, mae gan ran fwyaf y disgyblion ddealltwriaeth gadarn o amser ac maent yn darllen clociau digidol ac analog yn hyderus. Mae llawer o ddisgyblion yn defnyddio unedau safonol yn gywir wrth fesur hyd a phwyso gwrthrychau. Caiff medrau rhifedd y disgyblion eu datblygu'n briodol ar draws y meysydd dysgu. Enghraifft o hyn yw'r disgyblion yn cyfrifo nifer o siapiau 3D wrth adeiladu model o gastell Conwy.

Yng nghyfnod allweddol 2, mae safonau rhan fwyaf y disgyblion mewn gwersi a llyfrau mathemateg yn briodol. Mae llawer o ddisgyblion yn defnyddio amrywiaeth addas o ddulliau cyfrifo yn gywir wrth ddatrys problemau rhifiadol. Mae llawer o ddisgyblion yn cyflwyno a dehongli data yn hyderus, er enghraifft wrth gasglu gwybodaeth, llunio a dadansoddi graffiau amrywiol. Fodd bynnag, nid yw'r disgyblion yn defnyddio a chymhwyso'r medrau rhifedd maent yn eu dysgu mewn gwersi mathemateg yn ddigon cyson ar draws y cwricwlwm. Nid yw ychydig o ddisgyblion mwy abl yn gwneud digon o gynnydd yn eu medrau rhifedd.

Dros y blynyddoedd diwethaf, roedd nifer cymharol fach o ddisgyblion (deg neu lai) yn y grwpiau blwyddyn ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen a chyfnod allweddol 2 gan yr ysgol yn aml. Gall hyn effeithio'n sylweddol ar berfformiad meincnod yr ysgol o gymharu ag ysgolion tebyg ac o gymharu â chyfartaleddau cenedlaethol.

Yn y Cyfnod Sylfaen, dros y pedair blynedd diwethaf, mae perfformiad yr ysgol ar y deilliant disgwyliedig wedi amrywio rhwng y 25% uchaf a'r 25% isaf o gymharu ag ysgolion tebyg mewn llythrennedd a chyfathrebu yn y Gymraeg a datblygiad mathemategol. Dros y tair blynedd ddiwethaf, mae tuedd amlwg ar i lawr ymhob maes dysgu.

Mae perfformiad yr ysgol ar y deilliant uwch wedi amrywio rhwng y 25% uchaf a'r 25% isaf mewn datblygiad mathemategol. Mae perfformiad yr ysgol mewn llythrennedd a chyfathrebu yn y Gymraeg wedi gosod yr ysgol yn y 25% isaf a'r 50% is am y pedair blynedd diwethaf.

Ar ddiwedd cyfnod allweddol 2, mae perfformiad yr ysgol ar y lefel ddisgwyliedig ymhob pwnc craidd wedi amrywio rhwng y 25% isaf a'r 25% uchaf. Yn gyffredinol, mae tuedd ar ei lawr ymhob pwnc craidd dros y ddwy flynedd diwethaf.

Mae perfformiad yr ysgol ar y lefel uwch yn gyffredinol yn dangos yr un patrwm. Mae perfformiad mewn gwyddoniaeth wedi bod yn gyson yn y 25% isaf o gymharu ag ysgolion tebyg, tra bod perfformiad yr ysgol mewn Cymraeg wedi bod yn y 25% uchaf a'r 50% uwch am dair o'r pedair blynedd diwethaf.

**Lles: Digonol**

Mae ymddygiad bron bob un o'r disgyblion yn dda yn y gwersi ac o gwmpas yr ysgol. Maent yn gwrtais â'i gilydd, oedolion ac ymwelwyr. Mae rhan fwyaf o ddisgyblion y Cyfnod Sylfaen yn dangos diddordeb priodol yn eu gwaith ac mae llawer ohonynt yn cadw ar dasg am gyfnodau penodol. Nid yw disgyblion hynaf yr ysgol yn cymryd digon o rôl yn eu dysgu eu hunain gan nad yw eu targedau yn ddigon penodol. Fodd bynnag, nid yw medrau dysgu annibynnol mwyafrif y disgyblion wedi datblygu'n llawn.

Dros y pedair blynedd diwethaf, mae presenoldeb disgyblion wedi amrywio. O gymharu ag ysgolion tebyg, mae presenoldeb wedi gosod yr ysgol yn 25% uchaf a'r 50% uwch mewn tair o'r pedair blynedd diwethaf. Ar y cyfan, mae prydlondeb disgyblion yn briodol.

Mae bron bob un o'r disgyblion yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol ac yn gwybod at bwy i droi os ydynt yn pryderu. Mae gan ran fwyaf y disgyblion ymwybyddiaeth gadarn o ofynion byw, bwyta ac yfed yn iach. Mae rhan fwyaf y disgyblion yn manteisio ar weithgareddau ymarfer corff. Mae hyn yn hybu eu dealltwriaeth o gadw'n iach yn effeithiol.

Trwy waith y cyngor ysgol a'r grŵp eco, mae disgyblion yn gwneud penderfyniadau cadarn sy'n effeithio ar fywyd yr ysgol, ac maent yn ymfalchïo yn hyn. Enghraifft o hyn yw'r modd mae'r disgyblion wedi creu gardd lysiau a gardd drychfilod. Mae disgyblion yr ysgol yn cyfrannu'n gyson at bapur bro 'Y Gadlas', sydd yn fodd effeithiol o rannu gwaith yr ysgol o fewn y gymuned leol a chynyddu medrau llythrennedd y disgyblion.

| **Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?** | **Digonol** |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Digonol**

Mae gan yr ysgol gynlluniau cwricwlwm addas sy'n bodloni anghenion llawer o ddisgyblion. Mae cynlluniau'r Cyfnod Sylfaen yn gynhwysfawr ac yn cynnig ystod o brofiadau gwerthfawr i'r disgyblion. Mae'r ysgol yn ddiweddar wedi ymgorffori gofynion y Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd yng nghynlluniau trawsgwricwlaidd cyfnod allweddol 2. Fodd bynnag, nid yw hyn wedi datblygu'n llawn nac wedi ei gydlynu'n fwriadus. O ganlyniad, nid oes cyfleoedd cyson i'r disgyblion ddatblygu eu medrau yn ddigon llwyddiannus ar draws ystod o bynciau. Nid yw'r cynlluniau yn ymestyn ychydig o ddisgyblion mwy abl yn ddigon effeithiol.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer y Gymraeg a'r dimensiwn Cymreig yn gadarn ac yn galluogi'r disgyblion i ddysgu am ddiwylliant eu hardal leol a Chymru gyfan yn llwyddiannus. Enghraifft o hyn yw gwaith celf sydd wedi ei seilio ar arddull artistiaid o Gymru.

Mae'r ysgol yn cynllunio cyfleoedd priodol i ddatblygu gwybodaeth y disgyblion am faterion dinasyddiaeth fyd-eang a masnach deg trwy waith thema'r dosbarthiadau. Enghraifft ddiddorol o hyn yw gwaith ar y thema 'Bwyd y Byd'.

Mae grŵp eco yn cyfrannu'n effeithiol tuag at leihau gwastraff, er enghraifft trwy ailgylchu plastig, bwyd a dillad. O ganlyniad, mae dealltwriaeth rhan fwyaf y disgyblion o bwysigrwydd gofalu am y byd ehangach yn gadarn.

**Addysgu: Digonol**

Ar draws yr ysgol, mae athrawon yn cynllunio profiadau diddorol sy'n adeiladu'n addas ar ddysgu blaenorol y disgyblion. Mae pwyslais clir ar gyflwyno cwricwlwm ymarferol yn y Cyfnod Sylfaen, sy'n ennyn chwilfrydedd ac awydd ymysg y disgyblion i ddysgu. Mae cydweithio effeithiol rhwng athrawon a chymorthyddion, sy'n llwyddo i ddarparu cefnogaeth briodol i unigolion a grwpiau penodol o ddysgwyr. Mae hyn yn sicrhau bod llawer o ddisgyblion yn gwneud cynnydd pwrpasol yn y gwersi. Mae staff yn modelu iaith glir, sy'n cyfrannu'n dda at safonau iaith lafar y disgyblion. Er hynny, mae gor-gyfarwyddo gan athrawon ar draws yr ysgol yn cyfyngu ar allu'r disgyblion i fod yn ddysgwyr annibynnol ac i gymryd rôl weithredol yn eu dysgu eu hunain.

Yn y Cyfnod Sylfaen, lle mae'r addysgu'n fwyaf effeithiol, mae cyflwyniadau'n fywiog ac yn ennyn diddordeb y disgyblion yn dda. Mae athrawon yn cwestiynu'n addas sy'n galluogi'r disgyblion i ymhelaethu ac esbonio eu hatebion. Fodd bynnag, lle mae'r addysgu'n llai effeithiol, nid yw tasgau bob amser yn herio disgyblion i gyrraedd eu llawn botensial, yn enwedig yng nghyfnod allweddol 2.

Caiff amcanion dysgu addas eu rhannu gyda'r disgyblion ar ddechrau'r wers, ond nid ydynt yn ddigon miniog i herio disgyblion mwy abl. Mae athrawon yn marcio gwaith y disgyblion yn rheolaidd ac mae gan y disgyblion ddealltwriaeth dda o'r dull marcio. Yn gyffredinol, mae'r sylwadau'r athrawon yn adeiladol, ond nid ydynt bob amser yn rhoi arweiniad digon clir i'r disgyblion ar yr hyn sydd angen ei wneud i wella eu gwaith, yn enwedig yn y pynciau craidd.

Mae'r athrawon a'r staff yn defnyddio ystod briodol o ddeunyddiau asesu a phrofion safonol i asesu cyflawniad disgyblion. Mae'r ysgol yn defnyddio system electronig yn briodol i olrhain cynnydd disgyblion. Fodd bynnag, nid yw'r athrawon yn defnyddio'r wybodaeth sy'n deillio o hyn yn ddigon effeithiol i olrhain cynnydd grwpiau penodol o ddisgyblion.

Mae adroddiadau blynyddol i rieni yn cynnwys sylwadau pwrpasol ar gynnydd eu plentyn ynghyd â thargedau synhwyrol.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Anfoddhaol**

Nid yw trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn bodloni gofynion ac maent yn destun pryder.

Mae'r ysgol yn gymuned gynhwysol sy'n rhoi cefnogaeth dda i'r holl ddisgyblion. Maent yn cael cyfleoedd cyson i fyfyrio a datblygu eu hagweddau ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol drwy wasanaethau ysgol a dosbarth cyfan yn rheolaidd.

Mae trefniadau effeithiol yn bodoli er mwyn cefnogi iechyd a lles y disgyblion. Trwy gydweithio effeithiol ag asiantaethau arbenigol fel yr heddlu, meddyg lleol a

deintyddion, caiff disgyblion gynhaliaeth addas. Mae'r ysgol yn dathlu llwyddiannau'r disgyblion yn effeithiol drwy gadw siartiau gwobrwyo unigol a phwyntiau tai, ynghyd â 'seren yr wythnos' er mwyn gwobrwyo gwaith da. Mae'r disgyblion yn ymfalchïo yn hyn ac mae'n cael effaith gadarnhaol ar eu hagwedd at eu dysgu a'u hymddygiad. Mae'r ysgol yn gwneud trefniadau priodol ar gyfer hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach.

Mae cydlynydd anghenion arbennig a staff yr ysgol yn darparu cefnogaeth addas ar gyfer y disgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol. Mae hyn yn sicrhau bod disgyblion yn cael mynediad llawn i bob agwedd ar fywyd yr ysgol. Fodd bynnag, nid yw'r system olrhain cynnydd bob amser yn sicrhau bod y ddarpariaeth yn cael effaith gadarnhaol ar gyflawniad a chynnydd y disgyblion. Mae cynlluniau addysg unigol addas yn eu lle ac mae rhieni'n cael cyfle i drafod ac adolygu'r cynlluniau yn briodol.

**Yr amgylchedd dysgu: Digonol**

Mae'r ysgol yn gymuned gyfeillgar sydd ag ethos cynhwysol. Mae polisïau'r ysgol yn hybu cydraddoldeb a mynediad cyfartal i'r ddarpariaeth.

Mae'r ysgol yn gwneud defnydd da o'r adeilad a thir yr ysgol sy'n annog y disgyblion i gadw'n iach a gwerthfawrogi'r amgylchedd o'u cwmpas. Mae'r adeilad yn ddeniadol ac yn darparu amgylchedd dysgu effeithiol i ddisgyblion. Mae arddangosfeydd o waith y disgyblion yn yr ystafelloedd ac ar hyd y coridorau yn dathlu eu gwaith yn dda. Gwneir defnydd addas o'r ardal allanol i weithredu egwyddorion y Cyfnod Sylfaen. Mae'r ganolfan gymunedol yn cael ei defnyddio'n rheolaidd ar gyfer ystod o weithgareddau buddiol gan yr ysgol.

Mae gan yr ysgol gyflenwad digonol o adnoddau ar gyfer gwersi ac ar gyfer datblygu medrau digidol y disgyblion. Caiff y safle ac adeiladau'r ysgol eu cynnal a'u cadw'n lan a thaclus. Fodd bynnag, mae nifer o agweddau ynglŷn â'r safle yn peri pryder o safbwynt diogelu disgyblion.

| | |
|---|---|
| **Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?** | **Anfoddhaol** |

**Arweinyddiaeth: Anfoddhaol**

Dros gyfnod o amser, mae arweinyddiaeth strategol yr ysgol wedi bod yn aneffeithiol. Nid oes gan arweinwyr weledigaeth glir ar gyfer datblygiad strategol yr ysgol. Nid yw'r arweinwyr yn monitro cynnydd yn erbyn eu targedau yn ddigon effeithiol ac nid ydynt wedi mynd i'r afael yn ddigon cyflym â diffygion penodol, er enghraifft o fewn y ddarpariaeth, y monitro a'r cynllunio ar gyfer gwelliant.

Nid oes gan y staff swydd ddisgrifiadau cyfredol, ac o ganlyniad, nid ydynt yn ddigon ymwybodol o'u rôl a'u cyfrifoldebau. Er enghraifft, nid ydynt yn cymryd rôl effeithiol wrth fonitro ansawdd yr addysgu a dysgu. O ganlyniad, mae eu gwybodaeth am safonau a pherfformiad yr ysgol yn gyfyng.

Mewn byr amser, mae arweinyddiaeth y pennaeth mewn gofal dros dro yn dechrau gosod cyfeiriad i'r ysgol. Mae ganddi weledigaeth addas a chlir ar gyfer datblygu'r ysgol ac mewn amser byr iawn mae wedi ei rhannu gyda'r staff a disgyblion. Mae

wedi rhoi ychydig o strategaethau ar waith, er enghraifft wrth gynnal cyfarfodydd staff wythnosol er mwyn creu ethos o rannu gwybodaeth, cydweithio fel tîm ac i godi dealltwriaeth y staff o ddata perfformiad yr ysgol.

Nid yw arweinwyr yr ysgol wedi mynd i'r afael â blaenoriaethau cenedlaethol yn ddigon sydyn, fel y Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd, asesu ar gyfer dysgu a defnyddio a monitro effaith y Grant Amddifadedd Disgyblion.  O ganlyniad, cyfyng yw'r effaith ar ddeilliannau disgyblion.

Mae'r llywodraethwyr yn gefnogol i'r ysgol, ond dros gyfnod, nid ydynt wedi cyfrannu'n ddigon effeithiol at bennu cyfeiriad strategol yr ysgol.  Maent yn cynnal cyfarfodydd yn rheolaidd; fodd bynnag, nid yw eu cyfarfodydd yn canolbwyntio'n ddigon cadarn ar safonau perfformiad yr ysgol a safonau cyrhaeddiad y disgyblion. Mae eu dealltwriaeth o sut i herio a dwyn yr ysgol i gyfrif am ei pherfformiad yn gyfyng.  Nid ydynt yn cyflawni eu dyletswyddau statudol yn llawn.

**Gwella ansawdd:  Anfoddhaol**

Nid oes gan y pennaeth a'r arweinwyr ddarlun digon clir o gryfderau'r ysgol a'r agweddau pwysig sydd angen eu gwella o ran y ddarpariaeth a'r arweinyddiaeth.

Mae'r adroddiad hunanarfarnu diweddaraf yn seiliedig ar ystod brin iawn o dystiolaeth.  Mae'r pennaeth wedi dechrau monitro ansawdd yr addysgu a'r dysgu, ond nid yw'r adroddiadau yn nodi'n glir y cryfderau a'r meysydd i'w gwella.  O ganlyniad, nid oes gan arweinwyr wybodaeth gadarn am safonau gwaith a chyrhaeddiad disgyblion fel y gallant fynd i'r afael â'r gwendidau a chynllunio i'w gwella.  Nid yw rhanddeiliaid yr ysgol yn chwarae rôl ddigon flaenllaw yn y broses. Nid yw'r ysgol yn casglu a dadansoddi barn rhieni, llywodraethwyr na disgyblion yn ddigon effeithiol.

Mae gan yr ysgol gynllun ar gyfer gwelliant; fodd bynnag, nid oes cysylltiad clir rhyngddi â'r ddogfen hunanarfarnu.  Mae'r cynllun datblygu ysgol mwyaf diweddar, dan arweiniad y pennaeth dros dro, yn nodi nifer eang o flaenoriaethau gwella ynghyd â chyfrifoldebau, costau, amser gweithredu a dangosyddion llwyddiant.  Er hynny, nid oes digon o sylw yn cael ei roi i godi safonau cyrhaeddiad disgyblion.  Nid yw'r blaenoriaethau bob amser yn ddigon penodol na'r dangosyddion llwyddiant yn ddigon meintiol.  Mae hyn yn cyfyngu ar allu'r ysgol i arfarnu cynnydd yn ystyrlon yn erbyn y dangosyddion llwyddiant.

Prin yw'r cynnydd y mae'r ysgol wedi ei wneud yn erbyn argymhellion yr arolygiad blaenorol, er enghraifft er mwyn gwella'r cynllunio strategol, datblygu trefniadau hunanarfarnu priodol, sicrhau cynlluniau cwricwlaidd addas yng nghyfnod allweddol 2 a bodloni gofynion statudol.  Ar y cyfan, nid oes gan yr ysgol hanes llwyddiannus o ddefnyddio systemau priodol i adolygu cynnydd, nodi meysydd ar gyfer eu gwella a chymryd camau effeithio i'w cywiro.

**Gweithio mewn partneriaeth:  Digonol**

Mae gan yr ysgol nifer o bartneriaethau effeithiol sy'n cyfrannu'n briodol at y ddarpariaeth a safonau cyflawniad a lles y disgyblion.

Mae cylchlythyr wythnosol i rieni yn rhoi gwybodaeth bwrpasol am weithgareddau'r ysgol. Yn ddiweddar, mae'r ysgol wedi mabwysiadu cysylltiadau â gwefannau cymdeithasol ac mae hyn yn dechrau cryfhau'r cyswllt rhwng yr ysgol â'r rhieni.

Mae partneriaeth dda yn bodoli rhwng yr ysgol a'r cylch meithrin sydd yn cyfarfod yn adeilad yr ysgol. Mae sesiynau pontio rhwng y cylch a'r ysgol yn sicrhau bod disgyblion newydd yn ymdopi'n gyflym wrth gychwyn yn yr ysgol.

Mae'r ysgol yn cydweithio'n addas ag ysgolion y clwstwr i gymedroli a chyd-safoni gwaith ar ddiwedd cyfnod allweddol 2. Mae hyn yn codi ymwybyddiaeth athrawon o ofynion lefelau cyrhaeddiad yn briodol.

Mae'r ysgol yn manteisio'n rheolaidd ar gyfleoedd i gymryd rhan mewn gweithgareddau yn y gymuned. Mae cyswllt cadarn yn bodoli gyda'r eglwys a'r capeli lleol. Mae cyswllt buddiol rhwng yr ysgol ag ysbyty lleol, y mae'r disgyblion yn canu carolau ynddo bob blwyddyn. Mae'r cysylltiadau hyn yn codi ymwybyddiaeth y disgyblion o bwysigrwydd bod yn rhan o'r gymuned.

Mae swyddogion yr awdurdod lleol a'r consortiwm wedi cefnogi'r ysgol yn rheolaidd gydag ymweliadau cyson ac adroddiadau sydd yn cynnig sylwadau i wella'r ddarpariaeth, safonau a phrosesau huanarfarnu'r ysgol. Fodd bynnag, nid oes tystiolaeth bod y gefnogaeth wedi cael digon o effaith ar y ddarpariaeth, yr arweinyddiaeth na safonau cyrhaeddiad y disgyblion.

**Rheoli adnoddau: Anfoddhaol**

Mae gan yr ysgol lefel uchel o staff er mwyn cyfateb i anghenion y disgyblion. Dros y flwyddyn ddiwethaf, mae ansefydlogrwydd y staffio wedi effeithio'n sylweddol ar redeg yr ysgol.

Nid oes trefniadau rheoli perfformiad yn bodoli ar gyfer staff ar bob lefel, ac nid ydynt wedi derbyn hyfforddiant na rhannu ymarfer dda gydag athrawon eraill tu fewn na thu allan i'r ysgol. Dros y flwyddyn ddiwethaf, nid yw athrawon wedi cael eu cyfnodau statudol ar gyfer cynllunio, paratoi ac asesu.

Nid yw'r arweinwyr yn monitro gwariant yr ysgol yn briodol, ac nid yw'r Grant Amddifadedd Disgyblion yn cael ei ddefnyddio er mwyn diwallu anghenion y disgyblion yn ddigon priodol. Er enghraifft, er fod gwariant ar hyfforddiant fel llythrennedd a rhifedd wedi eu nodi yn y cynllun, prin iawn mae'r ysgol wedi defnyddio'r cyllid at bwrpas hyfforddi. O ganlyniad, cyfyng iawn yw'r effaith ar ddeilliannau a lles y disgyblion, yn cynnwys disgyblion sy'n gymwys i dderbyn cinio am ddim.

O ystyried y gwendidau mewn monitro'r cyllid, y defnydd aneffeithlon o'r Grant Amddifadedd Disgyblion a safonau cyflawniad y disgyblion, mae'r ysgol yn darparu gwerth anfoddhaol am arian.

# Atodiad 1: Sylwadau ar ddata perfformiad

**6622132 - Ysgol Bro Aled, Llansannan**

| | | |
|---|---|---|
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 61 | |
| Disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim (PYDd) - cyfartaledd 3 blynedd | 6.1 | |
| Grŵp PYD | 1 | (PYD<=8%) |

**Cyfnod Sylfaen**

| | 2012 | 2013 | 2014 | 2015 |
|---|---|---|---|---|
| **Nifer y disgyblion yng ngharfan Blwyddyn 2** | * | 9 | 5 | 8 |
| **Yn cyflawni dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS) (%)** | * | 88.9 | 80.0 | 75.0 |
| Chwartel meincnod | * | 3 | 4 | 4 |
| **Sgiliau iaith, llythrennedd a chyfathrebu - Saesneg (LCE)** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | * | * | * | * |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | * | * | * | * |
| Chwartel meincnod | * | * | * | * |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | * | * | * | * |
| Chwartel meincnod | * | * | * | * |
| **Sgiliau iaith, llythrennedd a chyfathrebu - Cymraeg (LCW)** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | * | 9 | 5 | 8 |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | * | 88.9 | 80.0 | 75.0 |
| Chwartel meincnod | * | 3 | 4 | 4 |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | * | 22.2 | 20.0 | 12.5 |
| Chwartel meincnod | * | 3 | 4 | 4 |
| **Datblygiad mathemategol (MDT)** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | * | 9 | 5 | 8 |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | * | 88.9 | 80.0 | 87.5 |
| Chwartel meincnod | * | 3 | 4 | 4 |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | * | 77.8 | 0.0 | 0.0 |
| Chwartel meincnod | * | 1 | 4 | 4 |
| **Datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amryw iath ddiw y lliannol (PSD)** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | * | 9 | 5 | 8 |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | * | 88.9 | 100.0 | 100.0 |
| Chwartel meincnod | * | 4 | 1 | 1 |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | * | 77.8 | 80.0 | 100.0 |
| Chwartel meincnod | * | 1 | 2 | 1 |

Mae'r dangosydd Cyfnod Sylfaen (DCS) yn cynrychioli canran y disglybion sydd wedi deilliant 5 neu uwch mewn PSD, LCE/LCW ac MDT gyda'l gilydd.
* Gallai'r eitem hon ddatgelu gwybodaeth am unigolion, neu os nad yw'n ddigon trylwyr i'w chyhoeddi, os nad yw'n berthnasol neu os nad yw ar gael fel arall.

Mae'r chwartel meincnod yn cymharu perfformiad un ysgol â pherfformiad ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion sy'n cael prydau ysgol am ddim (PYDd). Defnyddir PYDd yn ddirprwy ar gyfer difreintedd cymdeithasol mewn ysgolion. Mae hyn yn caniatáu am gymharu perfformiad ysgol â pherfformiad ysgolion eraill yn yr un categori PYDd ac a allai, felly, fod yn derbyn nifer tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.
Mae ysgol yn chwartel meincnod 1 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio orau ac sydd â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn uwch nag mewn llawer o ysgolion eraill â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig. Mae ysgol yn chwartel meincnod 4 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio waethaf ac â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn is nag mewn llawer o ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.

**6622132 - Ysgol Bro Aled, Llansannan**

| | |
|---|---|
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 61 |
| Disgyblion sy’n gymwys i gael prydau ysgol am ddim (PYDd) - cyfartaledd 3 blynedd | 6.1 |
| Grŵp PYD | 1 (PYD<=8%) |

**Cyfnod allweddol 2**

| | 2012 | 2013 | 2014 | 2015 |
|---|---|---|---|---|
| **Nifer y disgyblion yng ngharfan Blwyddyn 6** | 11 | * | 11 | 8 |
| **Yn cyflawni dangosydd pynciau craidd (DPC) (%)** | 81.8 | * | 72.7 | 75.0 |
| Chwartel meincnod | 4 | * | 4 | 4 |
| **Saesneg** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 11 | * | 11 | 8 |
| Yn cyflawni lefel 4+ (%) | 100.0 | * | 81.8 | 87.5 |
| Chwartel meincnod | 1 | * | 4 | 4 |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | * | * | * | * |
| Chwartel meincnod | * | * | * | * |
| **Cymraeg iaith gyntaf** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 11 | * | 11 | 8 |
| Yn cyflawni lefel 4+ (%) | 100.0 | * | 81.8 | 75.0 |
| Chwartel meincnod | 1 | * | 4 | 4 |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | 54.5 | * | 45.5 | 62.5 |
| Chwartel meincnod | 1 | * | 2 | 1 |
| **Mathemateg** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 11 | * | 11 | 8 |
| Yn cyflawni lefel 4+ (%) | 81.8 | * | 81.8 | 75.0 |
| Chwartel meincnod | 4 | * | 4 | 4 |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | * | * | 45.5 | * |
| Chwartel meincnod | * | * | 3 | * |
| **Gwyddoniaeth** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 11 | * | 11 | 8 |
| Yn cyflawni lefel 4+ (%) | 100.0 | * | 100.0 | 87.5 |
| Chwartel meincnod | 1 | * | 1 | 4 |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | * | * | * | * |
| Chwartel meincnod | * | * | * | * |

Mae'r dangosydd pynciau craidd (DPC) yn cynrychioli canran y disgyblion sydd wedi cyrraedd lefel 4 neu uwch mewn Saesneg neu Gymraeg (iath gyntaf), mathemateg a gwyddoniaeth gyda'i gilydd.

* Gallai’r eitem hon ddatgelu gwybodaeth am unigolion, neu os nad yw’n ddigon trylwyr i’w chyhoeddi, os nad yw’n berthnasol neu os nad yw ar gael fel arall.

Mae’r chwartel meincnod yn cymharu perfformiad un ysgol â pherfformiad ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion sy’n cael prydau ysgol am ddim (PYDd). Defnyddir PYDd yn ddirprwy ar gyfer difreintedd cymdeithasol mewn ysgolion. Mae hyn yn caniatáu am gymharu perfformiad ysgol â pherfformiad ysgolion eraill yn yr un categori PYDd ac a allai, felly, fod yn derbyn nifer tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.
Mae ysgol yn chwartel meincnod 1 ymhlith y 25% o ysgolion sy’n perfformio orau ac sydd â lefelau prydau ysgol am ddim sy’n debyg i’r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn uwch nag mewn llawer o ysgolion eraill â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig. Mae ysgol yn chwartel meincnod 4 ymhlith y 25% o ysgolion sy’n perfformio waethaf ac â lefelau prydau ysgol am ddim sy’n debyg i’r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn is nag mewn llawer o ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol, yn y ddolen isod.
http://mylocalschool.wales.gov.uk/index.html?iaith=cym

## Atodiad 2

### Adroddiad boddhad rhanddeiliaid

### Ymatebion i'r holiadur i ddysgwyr

Yn dynodi'r meincnod – mae hwn yn gyfanswm o'r holl ymatebion hyd hyn ers mis Medi 2010.

| | Number of responses / Nifer o ymatebion | Agree / Cytuno | Disagree / Anghytuno | |
|---|---|---|---|---|
| I feel safe in my school. | 18 | 17<br>94% | 1<br>6% | Rwy'n teimlo'n ddiogel yn fy ysgol. |
| | | 98% | 2% | |
| The school deals well with any bullying. | 18 | 14<br>78% | 4<br>22% | Mae'r ysgol yn delio'n dda ag unrhyw fwlio. |
| | | 92% | 8% | |
| I know who to talk to if I am worried or upset. | 18 | 17<br>94% | 1<br>6% | Rwy'n gwybod pwy i siarad ag ef/â hi os ydw I'n poeni neu'n gofidio. |
| | | 97% | 3% | |
| The school teaches me how to keep healthy | 18 | 18<br>100% | 0<br>0% | Mae'r ysgol yn fy nysgu i sut i aros yn iach. |
| | | 97% | 3% | |
| There are lots of chances at school for me to get regular exercise. | 18 | 15<br>83% | 3<br>17% | Mae llawer o gyfleoedd yn yr ysgol i mi gael ymarfer corff yn rheolaidd. |
| | | 96% | 4% | |
| I am doing well at school | 18 | 13<br>72% | 5<br>28% | Rwy'n gwneud yn dda yn yr ysgol. |
| | | 96% | 4% | |
| The teachers and other adults in the school help me to learn and make progress. | 18 | 15<br>83% | 3<br>17% | Mae'r athrawon a'r oedolion eraill yn yr ysgol yn fy helpu i ddysgu a gwneud cynnydd. |
| | | 99% | 1% | |
| I know what to do and who to ask if I find my work hard. | 18 | 14<br>78% | 4<br>22% | Rwy'n gwybod beth I'w wneud a gyda phwy i siarad os ydw I'n gweld fy ngwaith yn anodd. |
| | | 98% | 2% | |
| My homework helps me to understand and improve my work in school. | 18 | 17<br>94% | 1<br>6% | Mae fy ngwaith cartref yn helpu i mi ddeall a gwella fy ngwaith yn yr ysgol. |
| | | 91% | 9% | |
| I have enough books, equipment, and computers to do my work. | 18 | 15<br>83% | 3<br>17% | Mae gen i ddigon o lyfrau, offer a chyfrifiaduron i wneud fy ngwaith. |
| | | 95% | 5% | |
| Other children behave well and I can get my work done. | 18 | 8<br>44% | 10<br>56% | Mae plant eraill yn ymddwyn yn dda ac rwy'n gallu gwneud fy ngwaith. |
| | | 77% | 23% | |
| Nearly all children behave well at playtime and lunch time | 18 | 12<br>67% | 6<br>33% | Mae bron pob un o'r plant yn ymddwyn yn dda amser chwarae ac amser cinio. |
| | | 84% | 16% | |

# Ymateb i'r holiadur i rieni

Yn dynodi'r meincnod – mae hwn yn gyfanswm o'r holl ymatebion hyd hyn ers mis Medi 2010.

| | Number of responses<br>Nifer o ymatebion | Strongly Agree<br>Cytuno'n gryf | Agree<br>Cytuno | Disagree<br>Anghytuno | Strongly disagree<br>Anghytuno'n gryf | Don't know<br>Ddim yn gwybod | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Overall I am satisfied with the school. | 11 | 4 | 6 | 0 | 1 | 0 | Rwy'n fodlon â'r ysgol yn gyffredinol. |
| | | 36% | 55% | 0% | 9% | | |
| | | 64% | 33% | 3% | 1% | | |
| My child likes this school. | 11 | 10 | 0 | 1 | 0 | 0 | Mae fy mhlentyn yn hoffi'r ysgol hon. |
| | | 91% | 0% | 9% | 0% | | |
| | | 73% | 25% | 1% | 0% | | |
| My child was helped to settle in well when he or she started at the school. | 11 | 9 | 1 | 1 | 0 | 0 | Cafodd fy mhlentyn gymorth i ymgartrefu'n dda pan ddechreuodd yn yr ysgol. |
| | | 82% | 9% | 9% | 0% | | |
| | | 73% | 26% | 1% | 0% | | |
| My child is making good progress at school. | 10 | 4 | 5 | 1 | 0 | 1 | Mae fy mhlentyn yn gwneud cynnydd da yn yr ysgol. |
| | | 40% | 50% | 10% | 0% | | |
| | | 62% | 34% | 3% | 1% | | |
| Pupils behave well in school. | 10 | 5 | 3 | 2 | 0 | 1 | Mae disgyblion yn ymddwyn yn dda yn yr ysgol. |
| | | 50% | 30% | 20% | 0% | | |
| | | 48% | 47% | 4% | 1% | | |
| Teaching is good. | 11 | 4 | 6 | 1 | 0 | 0 | Mae'r addysgu yn dda. |
| | | 36% | 55% | 9% | 0% | | |
| | | 62% | 36% | 2% | 0% | | |
| Staff expect my child to work hard and do his or her best. | 11 | 3 | 8 | 0 | 0 | 0 | Mae'r staff yn disgwyl i fy mhlentyn weithio'n galed ac i wneud ei orau. |
| | | 27% | 73% | 0% | 0% | | |
| | | 65% | 33% | 1% | 0% | | |
| The homework that is given builds well on what my child learns in school. | 11 | 3 | 5 | 2 | 1 | 0 | Mae'r gwaith cartref sy'n cael ei roi yn adeiladu'n dda ar yr hyn mae fy mhlentyn yn ei ddysgu yn yr ysgol. |
| | | 27% | 45% | 18% | 9% | | |
| | | 50% | 42% | 6% | 2% | | |
| Staff treat all children fairly and with respect. | 11 | 5 | 5 | 0 | 1 | 0 | Mae'r staff yn trin pob plentyn yn deg a gyda pharch. |
| | | 45% | 45% | 0% | 9% | | |
| | | 61% | 34% | 4% | 1% | | |
| My child is encouraged to be healthy and to take regular exercise. | 10 | 3 | 7 | 0 | 0 | 1 | Caiff fy mhlentyn ei annog i fod yn iach ac i wneud ymarfer corff yn rheolaidd. |
| | | 30% | 70% | 0% | 0% | | |
| | | 61% | 37% | 2% | 0% | | |
| My child is safe at school. | 11 | 6 | 4 | 0 | 1 | 0 | Mae fy mhlentyn yn ddiogel yn yr ysgol. |
| | | 55% | 36% | 0% | 9% | | |
| | | 67% | 31% | 1% | 0% | | |
| My child receives appropriate additional support in relation to any particular individual needs'. | 10 | 3 | 4 | 1 | 2 | 1 | Mae fy mhlentyn yn cael cymorth ychwanegol priodol mewn perthynas ag unrhyw anghenion unigol penodol. |
| | | 30% | 40% | 10% | 20% | | |
| | | 56% | 38% | 4% | 1% | | |
| I am kept well informed about my child's progress. | 11 | 2 | 3 | 4 | 2 | 0 | Rwy'n cael gwybodaeth gyson am gynnydd fy mhlentyn. |
| | | 18% | 27% | 36% | 18% | | |
| | | 50% | 40% | 8% | 2% | | |

| | Number of responses<br>Nifer o ymatebion | Strongly Agree<br>Cytuno'n gryf | Agree<br>Cytuno | Disagree<br>Anghytuno | Strongly disagree<br>Anghytuno'n gryf | Don't know<br>Ddim yn gwybod | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| I feel comfortable about approaching the school with questions, suggestions or a problem. | 11 | 6<br>55% | 4<br>36% | 1<br>9% | 0<br>0% | 0 | Rwy'n teimlo'n esmwyth ynglŷn â gofyn cwestiwn i'r ysgol, gwneud awgrymiadau neu nodi problem. |
| | | 63% | 31% | 4% | 2% | | |
| I understand the school's procedure for dealing with complaints. | 8 | 3<br>38% | 3<br>38% | 0<br>0% | 2<br>25% | 3 | Rwy'n deall trefn yr ysgol ar gyfer delio â chwynion. |
| | | 49% | 42% | 8% | 2% | | |
| The school helps my child to become more mature and take on responsibility. | 11 | 6<br>55% | 4<br>36% | 1<br>9% | 0<br>0% | 0 | Mae'r ysgol yn helpu fy mhlentyn i ddod yn fwy aeddfed ac i ysgwyddo cyfrifoldeb. |
| | | 58% | 39% | 2% | 0% | | |
| My child is well prepared for moving on to the next school or college or work. | 6 | 2<br>33% | 2<br>33% | 1<br>17% | 1<br>17% | 3 | Mae fy mhlentyn wedi'i baratoi'n dda ar gyfer symud ymlaen i'r ysgol nesaf neu goleg neu waith. |
| | | 53% | 41% | 5% | 1% | | |
| There is a good range of activities including trips or visits. | 10 | 3<br>30% | 4<br>40% | 2<br>20% | 1<br>10% | 1 | Mae amrywiaeth dda o weithgareddau, gan gynnwys teithiau neu ymweliadau. |
| | | 55% | 38% | 5% | 1% | | |
| The school is well run. | 8 | 2<br>25% | 3<br>38% | 1<br>12% | 2<br>25% | 2 | Mae'r ysgol yn cael ei rhedeg yn dda. |
| | | 62% | 33% | 3% | 2% | | |

# Atodiad 3

## Y tîm arolygu

| | |
|---|---|
| Anwen Eluned Griffith | Arolygydd Cofnodol |
| Buddug Mai Bates | Arolygydd Tîm |
| David Owen Jenkins | Arolygydd Lleyg |
| Alan Jones | Arolygydd Cymheiriaid |
| Rhian Jones | Enwebai |

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

**Grwpiau blwyddyn, y Cyfnod Sylfaen a chyfnodau allweddol**

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o ddechrau addysg ysgol orfodol i 18 oed. Mae'r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd parhad ac yn hwyluso cyfathrebu ymhlith ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac awdurdodau lleol.

Mae'r tabl canlynol yn nodi'r amrediad oedrannau sy'n berthnasol i bob grŵp blwyddyn. Er enghraifft, mae Blwyddyn 1 yn cyfeirio at y grŵp o ddisgyblion sy'n cyrraedd 6 oed yn ystod y flwyddyn academaidd, a Blwyddyn 13 yw'r grŵp blwyddyn sy'n cyrraedd 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Cyfnod cynradd:

| Blwyddyn | Meithrin | Derbyn | B1 | B2 | B3 | B4 | B5 | B6 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 3-4 | 4-5 | 5-6 | 6-7 | 7-8 | 8-9 | 9-10 | 10-11 |

Cyfnod uwchradd:

| Blwyddyn | B7 | B8 | B9 | B10 | B11 | B12 | B13 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 11-12 | 12-13 | 13-14 | 14-15 | 15-16 | 16-17 | 17-18 |

Mae'r Cyfnod Sylfaen a'r cyfnodau allweddol yn cwmpasu'r grwpiau blwyddyn canlynol:

| | |
|---|---|
| Cyfnod Sylfaen | Meithrin, Dosbarth Derbyn, Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2 |
| Cyfnod allweddol 2 | Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6 |
| Cyfnod allweddol 3 | Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9 |
| Cyfnod allweddol 4 | Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11 |

## Rhestr termau – Cynradd

### Dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS)

Mae cynnydd mewn dysgu drwy'r Cyfnod Sylfaen yn cael ei ddangos gan ddeilliannau (o ddeilliant 1 i ddeilliant 6).

Mae dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS) yn ymwneud â'r perfformiad disgwyliedig mewn tri maes dysgu yn y Cyfnod Sylfaen:

- llythrennedd, iaith a chyfathrebu yn Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf
- datblygiad mathemategol
- datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol

Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, yn saith oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd deilliant 5 a disgwylir i'r rhai mwy galluog gyrraedd deilliant 6.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y deilliant disgwyliedig (deilliant 5) yn y tri maes uchod i gyflawni dangosydd y Cyfnod Sylfaen.

### Y dangosydd pwnc craidd (DPC)

Mae cynnydd mewn dysgu trwy gyfnod allweddol 2 yn cael ei ddangos gan lefelau (lefel 1 i lefel 5).

Mae'r dangosydd pwnc craidd yng nghyfnod allweddol 2 yn ymwneud â'r perfformiad disgwyliedig ym mhynciau craidd y Cwricwlwm Cenedlaethol:

- Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf
- mathemateg
- gwyddoniaeth

Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, yn un ar ddeg oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd lefel 4 a disgwylir i'r disgyblion mwy galluog gyrraedd lefel 5.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y lefel ddisgwyliedig o leiaf (lefel 4) yn y tri phwnc craidd er mwyn cyflawni'r dangosydd pwnc craidd.

### Setiau Data Craidd Cymru Gyfan

Gall adroddiadau arolygu gyfeirio at berfformiad ysgol o gymharu â theulu o ysgolion neu ag ysgolion neu sydd â chyfran weddol debyg o ddisgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim.

Mewn perthynas â phrydau ysgol am ddim, mae ysgolion yn cael eu gosod yn un o bump o fandiau yn ôl y duedd tair blynedd yng nghyfran y disgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim yn yr ysgol.  Caiff perfformiad yr ysgol ei roi mewn chwarteli wedyn (o'r 25% uchaf i'r 25% isaf) mewn perthynas â pha mor dda mae'n gwneud o gymharu ag ysgolion eraill yn yr un band prydau ysgol am ddim.

Aeth Llywodraeth Cymru ati i greu'r teuluoedd o ysgolion (grŵp o 11 o ysgolion yn nodweddiadol) i alluogi ysgolion i gymharu'u perfformiad ag ysgolion tebyg ar hyd a lled Cymru.  Mae cyfansoddiad y teuluoedd yn defnyddio nifer o ffactorau.  Mae'r rhain yn cynnwys cyfran y disgyblion â hawl i gael prydau ysgol am ddim, a'r gyfran sy'n byw yn yr 20% o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru.  Maent hefyd yn defnyddio cyfran y disgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig yn cael cymorth drwy'r cynllun gweithredu gan yr ysgol a mwy neu â datganiad o anghenion addysgol arbennig, a disgyblion sy'n dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol.